

Caerdydd sy'n Deall Dementia / Dementia Friendly Cardiff

Dementia Friendly Vale
Y Fro Dementia Gyfeillgar

Gweithio i fod yn

# Sefydliad sy'n Deall Dementia

**Gall siopau, busnesau a sefydliadau wneud gwahaniaeth mawr drwy fod yn rhai sy'n deall dementia gan helpu pobl sydd wedi eu heffeithio gan ddementia i fyw bywydau mwy bodlon a gwell,, gan barhau i fod yn weithgar ac yn rhan o'r gymuned.**

## Beth yw dementia?

**Achosir dementia pan fo'r ymennydd yn cael ei niweidio gan glefydau ac nid yw'n rhan naturiol o'r broses heneiddio. Mae gwahanol fathau o ddementia, y ffurf fwyaf cyffredin yw clefyd Alzheimer. Mae dementia'n dechrau gyda symptomau ysgafn sy'n gwaethygu dros amser. Mae gwahanol fathau o ddementia yn tueddu i effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol.**

## Mae dod yn fwy ystyriol o ddementia yn golygu:

- Cydnabod effaith dementia a sut mae'n newid anghenion cwsmeriaid
- Ystyried sut y gallwch chi gefnogi cwsmeriaid a gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ddementia yn well
- Meddu ar gynllun sylfaenol i gefnogi'r gwaith hwn.

Nid oes disgwyl i chi ddeall dementia o'r diwrnod cyntaf, adnabod cwsmeriaid sydd â dementia na gofyn cwestiynau anodd i gwsmeriaid.

## Pam ddylai eich sefydliad chi ddod yn un sy'n deall dementia?



- Byddwch yn cadw ac yn denu cwsmeriaid sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr
- Chi yw'r rhyngweithio rheng flaen ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.
- Bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu
- Bydd yn gwella enw da eich brand i ddangos eich bod yn gyfrifol yn gymdeithasol
- Bydd eich staff yn fwy hyderus gyda chwsmeriaid sydd â dementia, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a lleihau cwynion
- Rhagwelir angen cynyddol wrth i niferoedd y bobl sy'n byw â dementia yng Nghaerdydd gynyddu
- Mae gennych rwymedigaeth gyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol a bod mynediad at wasanaethau mor gynhwysol â phosibl
- Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth swyddogol gan y Gymdeithas Alzheimer's drwy'r logo 'Gweithio i fod yn Sefydliad sy'n Deall Dementia'.

This document is available in English /
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Sut allwch chi ennill cydnabyddiaeth 'Deall Dementia'?

Gallwch wneud gwahaniaeth mawr i bobl sydd â dementia trwy ymrwymo i fod yn fwy ystyriol o ddementia mewn 3 maes allweddol: Pobl, Proses a Lle:

## 1. Pobl



Darparu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dementia i weithwyr fel y gallant gefnogi cwsmeriaid a'u cydweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan Ddementia.

- Gall staff ddod yn Ffrindiau Dementia neu gymryd rhan mewn hyfforddiant dementia gan y Gymdeithas Alzheimer's
- Gwahodd rhywun i rannu profiad o fyw gyda dementia gyda'ch staff.

## 2. Proses



- Sicrhau bod pawb yn gwybod lle i gael cymorth dementia os oes ei angen arnynt a newid eich prosesau a'ch cynnyrch i'w gwneud yn rhai sy'n deall dementia.
- Cyfeirio staff a chwsmeriaid i gymorth dementia pellach
- Ystyried pobl sydd wedi eu heffeithio gan ddementia wrth ailddatblygu cynhyrchion/gwasanaethau presennol neu greu rhai newydd
- Cynnig taflenni a gwybodaeth am ddementia i gwsmeriaid a staff
- Adolygu polisïau staff i greu gweithle sy'n deall dementia.

## Enghreifftiau o ymrwymiadau sy'n deall dementia

- **Dywedodd gweithredwr til y bydden nhw'n fwy amyneddgar wrth wasanaethu rhywun**
- **Dywedodd fferyllydd y byddai'n cadw'r stoc yn eu siopau yn yr un lle**
- **Dywedodd optegydd y byddai'n darllen y llyfryn: Sut i helpu pobl gyda dementia – canllaw i'r cwsmeriaid**
- **Dywedodd bancwr y byddai'n lledaenu'r gair drwy annog ei gydweithwyr neu fusnesau lleol eraill i ddod yn Ffrindiau Dementia.**

## 3. Lle



Gall ychydig o newidiadau bach wella hygyrchedd yn sylweddol i lawer o bobl, gan gynnwys y rhai a effeithir gan ddementia

- Cwblhewch wiriad amgylchedd sy'n deall dementia a deall pa newidiadau bach y gellir eu gwneud i'ch amgylcheddau fod yn fwy hygyrch ac sy'n deall dementia cymaint â phosibl dros amser
- Cynnig eich lle i sefydliadau lleol gynnal gweithgareddau sy'n deall dementia
- Annog busnesau lleol eraill i ddod yn rhai sy'n deall dementia, rhannwch yr hyn rydych yn ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn digwyddiadau.

# Hoffech chi gael help i fod yn sefydliad sy'n deall dementia?

**Gallwn helpu'ch sefydliad i ddeall dementia a chyflawni cydnabyddiaeth 'Gweithio i Ddeall Dementia' drwy:**

- Nodi camau i'ch sefydliad fod yn fwy croesawgar a hygyrch i bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr.
- Eich helpu i archwilio'ch amgylchedd ffisegol i wneud newidiadau neu welliannau er mwyn Deall Dementia.
- Rhoi adnoddau, gwybodaeth a chyngor i chi ar sut i gael eich cydnabod fel sefydliad sy'n Deall Dementia.
- Eich cyfeirio chi at sesiwn Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia.

**Cysylltwch â**
**DeallDementia@caerdydd.gov.uk**
**am fwy o wybodaeth.**